**Cynhadledd Flynyddol RSAW 2022**
Dydd Iau 10 Tachwedd
Cornerstone, Heol Siarl, Caerdydd CF10 2GA

# LLESIANT Y GENEDL



## DADANSODDIAD O DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2015

Dan ofal Rockpanel

Cefnogir gan Design Commission for Wales / Comisiwn Dylunio Cymru, Ibstock – At the heart of building, ALUTEC, lightnet

RSAW
Architecture.com/wales

LLESIANT
Y GENEDL



Mae saith mlynedd ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ei gwneud 'yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd'.

RSAW
Architecture.com/wales

Pan gyflwynwyd hi, dywedodd y Cenhedloedd Unedig fod y Ddeddf 'yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n arwain y byd'.

Cyfeiriodd adroddiad yn 2020 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at rai cyfyngiadau, yn cynnwys cyllid tymor byr, cymhlethdodau deddfwriaethol a llywodraethu, a phroblemau ynghylch adrodd ar berfformiad, oedd yn amharu ar feysydd fel yr egwyddor 'datblygu cynaliadwy'.

Bydd Cynhadledd Flynyddol RSAW eleni yn mynd ati i ystyried a wnaed digon i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn gweithio'n fwy effeithiol. Byddwn yn dwyn ynghyd weithwyr proffesiynol a myfyrwyr o bob rhan o'r diwydiant i gyflwyno a thrafod eu profiadau nhw o'r Ddeddf, sut y mae wedi effeithio ar eu gwaith a pha gyfleoedd sydd gennym yng Nghymru i barhau â'r cynllun sy'n 'arwain y byd' er budd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Byddwn yn edrych i weld beth fyddai effaith y Ddeddf pe câi ei chyflwyno ar gyfer holl waith y sector preifat yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar fanteision a goblygiadau. Edrychwn hefyd ar y Ddeddf Gwerth Cymdeithasol 2012, yn Lloegr, sef offeryn i helpu comisiynwyr i gael mwy o werth am arian yn y broses gaffael. Anogir comisiynwyr i siarad â'u cymuned neu farchnad darparwyr leol i gynllunio gwasanaethau gwell, yn aml gan ganfod atebion newydd ac arloesol i broblemau anodd.

Trwy ddathlu dylunio rhagorol, byddwn yn rhannu astudiaethau achos a straeon ysbrydoledig ynghylch sut a pham mai pobl ddylai fod wrth galon y broses o wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

https://www.audit.wales/sites/default/files/Well-being-of-Future-Generations-report-cym_11.pdf

LLESIANT
Y GENEDL



# Rhaglen Amlinellol





## Dydd Iau 10 Tachwedd

**9.00** Cofrestru

**9.30** Cyflwyno a Chroeso
Gavin Traylor, Llywydd RSAW; Darlithydd mewn Pensaernïaeth ac Adeiladu, PCDDS

**9.45** Gosod yr olygfa
Flora Samuel, Athro mewn Pensaernïaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig, Prifysgol Reading

**9.55** Prif anerchiad
Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

**10.15** Dylunio gyda Golwg ar y Dyfodol
Juliet Davis, Pennaeth yr Ysgol, Ysgol Bensaernïaeth Cymru

**11.00** *Amser paned*

**11.30** Gweithdai cyn y gynhadledd – trosolwg
Mhairi McVicar/Dan Benham, Ysgol Bensaernïaeth Cymru

**11.45** Safbwynt cynllunydd
Kathryn Williams, Rheolwr Gyfarwyddwr KEW Planning

**12.30** *Cinio*

**13.30** Astudiaeth Achos 1:
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
Karyn Williams, Pennaeth Gwerth Cymdeithasol, Stride Treglown; Elfed Roberts, Pennaeth Cynaliadwyedd ac Arloesi, Grŵp Pobl

**14.30** Astudiaeth Achos 2:
Goldsmith Street, Enillydd Gwobr Stirling RIBA 2019
David Mikhail, Mikhail Riches

**15.15** Trafodaeth banel
O dan arweiniad Dave Rossington, Pensaer Prosiectau, Powell Dobson a Chadeirydd Design Circle RSAW

**15.45** *Egwyl*

**16.00** Awr ysbrydoliaeth
John Pardey, Cyfarwyddwr, John Pardey Architects

**16.45** Holi ac Ateb

**17.00** Crynodeb a geiriau i gloi
Flora Samuel, Athro mewn Pensaernïaeth yn yr Amgylchedd Adeiledig, Prifysgol Reading;
Dave Rossington, Pensaer Prosiectau, Powell Dobson Architects

**17.10** *Diwedd*

**17.15** Coctels y Gynhadledd

# Sut i gadw lle

Os hoffech gadw lle yng Nghynhadledd Flynyddol RSAW 2022, ewch i:
https://www.eventbrite.co.uk/e/rsaw-annual-conference-2022-tickets-423362286997

**Trefn brisio**
**Tocyn**

| | |
|---|---|
| Aelodau RSAW/RIBA: | £115 +TAW |
| Pobl eraill: | £140 +TAW |
| Myfyrwyr: | £50 +TAW |

**Gostyngiad Grwpiau ar gyfer**
**Practisiau Siartredig**

- Cymerwch ostyngiad o 5% i grwpiau o rhwng 3 a 5 o gynadleddwyr.
- Cymerwch ostyngiad o 10% i grwpiau o 6 neu fwy o gynadleddwyr.



**Cynhadledd Flynyddol RSAW 2022**
Dydd Iau 10 Tachwedd, 9.00 – 17.15
Cornerstone, Heol Siarl, Caerdydd CF10 2GA

**Pynciau'r cwricwlwm craidd**

| | |
|---|---|
| 1 | Pensaernïaeth at ddiben cymdeithasol |
| 2 | Iechyd, diogelwch a lles |
| 3 | Busnes, cleientiaid a gwasanaethau |
| 6 | Pensaernïaeth gynaliadwy |
| 8 | Lleoedd, cynllunio a chymunedau |
| 9 | Gwarchod adeiladau a threftadaeth |
| 10 | Dylunio, adeiladu a thechnoleg |

Mae'r gynhadledd undydd hon yn cyfateb i 7 awr o DPP i aelodau RSAW/RIBA. Mae'n berthnasol i'r pynciau hyn yn y cwricwlwm craidd: 1, 2, 3, 6, 8, 9, 10.





RSAW
Architecture.com/wales

RSAW yw Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yng Nghymru

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru
Studio 111, The Creative Quarter,
Arcêd Morgan, Caerdydd CF10 1AF
029 2022 8987
rsaw@riba.org
www.architecture.com/wales

**Lluniau:**
Jim Stephenson